Meysydd a nodwyd ar gyfer gwella	Ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych
Monitro a gwerthuso'r effaith bosibl ar blant ac oedolion o ganlyniad i newidiadau'r cyngor i seilwaith uwch reolwyr ar gyfer cyflwyno gofal cymdeithasol;	Mae hyn yn ystyriaeth o bwys i'r cyngor, yn enwedig mewn perthynas â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, lle mae'n ffurfio rhan o'r gwaith i sefydlu'r Gwasanaethau Addysg a Phlant newydd o fis Ebrill 2016. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) sy'n arwain ar hyn i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r gwasanaeth newydd. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol 2015/16 i ymgorffori Byw'n Annibynnol â Chymorth a Digartrefedd a Datrysiadau Tai i Wasanaethau Cymorth Cymunedol ac mae'r Pennaeth Gwasanaeth ar hyn o bryd yn ailstrwythuro ei Dîm Arweinyddiaeth i greu rhywfaint o gapasiti ychwanegol ar lefel uwch. Bydd y newidiadau a gynlluniwyd yn helpu i integreiddio'r elfennau o'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig â thai yn llawn. Mae gan y cyngor eisoes fframwaith rheoli perfformiad cadarn iawn, gan gynnwys y broses Herio Gwasanaeth blynyddol, lle mae perfformiad yn cael ei archwilio gan uwch reolwyr; Aelodau Etholedig; Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae yna hefyd adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA); Archwilio; a'r Cabinet. Felly rydym yn hyderus bod gennym y prosesau monitro a gwerthuso angenrheidiol ar waith i nodi unrhyw effaith bosibl ar ddefnyddwyr y gwasanaeth yn dilyn y newidiadau hyn. O ran deall safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, mae gennym eisoes brosesau ar waith i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar farn defnyddwyr gwasanaeth yn systematig. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn i gynllunio a dylunio gwasanaethau lle bo'n briodol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn adeiladu ar y gwaith hwn i gryfhau hyn ymhellach, gyda phrosiect Llais y Plentyn yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a datblygu astudiaethau achos manylach (Straeon Digidol) sy'n defnyddio geiriau'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain i ddisgrifio eu profiadau o wasanaeth a ddarperir.

Gwella amseroldeb ac ymgysylltiad POVA a chynnal adolygiad o lefelau trothwy	Mae'r camau canlynol wedi eu cymryd mewn perthynas â gwella amseroldeb a chysondeb yn y broses ddiogelu: • Darparwyd Hyfforddiant Diogelu i Reolwyr Arweiniol Dynodedig, ac mae rhaglen barhaol o hyfforddiant pellach wedi ei sefydlu; • Rydym wedi cynyddu maint y gefnogaeth weinyddol ar gyfer y broses o Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn, er mwyn cefnogi'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig • Mae prosesau Pwynt Mynediad Sengl diwygiedig wedi galluogi sgrinio mwy effeithiol a chadarn o atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn. • Mae swydd newydd Rheolwr Tîm Diogelu wedi'i chreu i ddarparu cefnogaeth broffesiynol ychwanegol i Reolwyr Arweiniol Dynodedig a gwella'r broses gyfan; ac • Mae Adolygiad Cyfoedion wedi ei gynnal gyda Chonwy er mwyn sicrhau bod gennym farn allanol o'n prosesau ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy'r grŵp Cyflenwi Diogelu Oedolion Lleol sy'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol gan gynnwys Iechyd a'r Heddlu. Mynegwyd pryder nad oedd asiantaethau perthnasol bob amser yn cymryd rhan, yn enwedig mewn trafodaethau strategaeth gynnar. Fodd bynnag, mae'r Heddlu wedi canmol Cyngor Sir Ddinbych am ein harfer wrth sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob atgyfeiriad Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn ac maent wedi mabwysiadu ein gweithdrefn ar draws Gogledd Cymru. Ar ben hynny, cynhaliwyd trafodaethau gyda BIPBC ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt, ac nid oeddent yn gallu adnabod unrhyw achosion lle y bu pryderon. Fodd bynnag, rydym wedi llunio prosesau i sicrhau bod BIPBC yn glir ar eu llwybrau cyfathrebu gyda ni. Roedd yna hefyd bryder a godwyd am ddiffyg hyder y rheolwyr arweiniol dynodedig yn y broses POVA. Mewn ymateb i'r pryder hwn, mae hyfforddiant Diogelu ar gyfer Rheolwyr Arweiniol Dynodedig wedi cael ei gynnal a chomisiynwyd hyfforddiant penodol ar reoli'r Cyfarfodydd Strategaeth. Mewn ymateb i'r pryder bod angen eglurhad pellach ynghylch trothwy'r cyngor ar gyfer derbyn neu wrthod atgyfeiriadau POVA, rydym wedi mabwysiadu'r offeryn

	trothwy cenedlaethol ar gyfer atgyfeiriadau POVA sydd wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â throthwy ar gyfer archwiliad.
Monitro ansawdd yr holl ddarparwyr gofal yn y cartref yn agos a fydd angen cynnwys clywed am brofiadau a barn y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn y cartref	Rydym yn cymryd ymagwedd gymesur ac yn seiliedig ar risg i fonitro darparwyr gofal cartref, ac mae gennym system gadarn ar waith ar gyfer defnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn y broses hon. Rydym yn anfon holiaduron at amrywiol ddefnyddwyr y gwasanaeth bob mis, ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn cael ei ddefnyddio gan y tîm monitro contractau i lywio'r broses o fonitro ansawdd a dilyn trywydd unrhyw faterion a amlygwyd gan ymatebwyr. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn ystyried dyfodol ei wasanaethau gofal mewnol, ac mae darpariaeth i gyflogi dau swyddog monitro ychwanegol os yw'r cyngor yn penderfynu comisiynu'r holl ofal gan y sector annibynnol yn y dyfodol. Mae Sir Ddinbych hefyd yn un o'r chwe chyngor yng Nghymru sy'n ymwneud ag Adolygiad Cenedlaethol o Ofal yn y Cartref ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn arwain at adroddiad cenedlaethol yn ogystal ag adborth lleol am ein prosesau ein hunain. Byddwn wrth gwrs yn ystyried casgliadau'r gwaith hwn, ac yn ymateb i unrhyw bryderon neu faterion a godwyd.
Gweithio mewn partneriaeth integredig gyda BIPBC	Mae gweithio mewn partneriaeth integredig pellach gyda BIPBC yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r cyngor, ond mae hefyd yn parhau i fod yn her ar hyn o bryd gan fod y bwrdd iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar symud allan o fesurau arbennig. Fodd bynnag, rydym yn ffyddiog y bydd y strwythur rheoli newydd ar sail ardal yn BIPBC yn galluogi gweithio'n agosach dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r adolygiad presennol o'n gwasanaethau gofal mewnol presennol wedi nodi'r potensial ar gyfer mwy o weithio mewn partneriaeth (gan ddefnyddio rhai o'r asedau presennol), yn dibynnu ar y penderfyniadau a wnaed yn dilyn ein hymgynghoriad ar hyn o bryd.